**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD CABINET**
***CABINET MEMBER'S DECISION NOTICE***

PWNC/*SUBJECT*: Codi Pris Cinio Oedolion mewn Ysgolion Cynradd ac Arbennig
*Increasing the Cost of School Meals for Adults in Primary and Special Schools*

---

AELOD CABINET/CABINET MEMBER:

Y Cynghorydd / *Councillor* Gareth Thomas

---

PENDERFYNIAD/*DECISION*:

Cynyddu pris cinio ysgol oedolion mewn ysgolion cynradd ac arbennig o £2.75 y dydd i £3.00 y dydd yn weithredol o 1af Medi, 2016.

*To increase the daily cost of a school meal for adults in primary and special schools from £2.75 to £3.00 from 1st September, 2016.*

---

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD/*REASONS FOR THE DECISION:*

Bydd pris cinio i ddisgyblion ysgolion cynradd ac arbennig yn codi o £2.20 i £2.30 ym Medi 2016 fel rhan o'r cynllun arbedion o £4.3m o gyllidebau ysgolion. Cymeradwyd hyn gan y Cabinet ar 16 Chwefror 2016 a'r Cyngor ar 3 Mawrth 2016 fel rhan o Strategaeth Ariannol y Cyngor.

Dydy pris cinio i oedolion ddim wedi codi ers Medi 2014. Mae'r codiad o £2.75 i £3.00 yn resymol ac fe fydd hefyd yn cyfrannu tuag at y targed arbedion o £4.3m o arbedion ar gyllidebau ysgolion.

*The cost of a school meal for primary and special school pupils will rise from £2.20 to £2.30 in September 2016 as part of the scheme to realise £4.3m of savings from the schools' budget. This was approved by the Cabinet on 16 February 2016 and by the Council on 3 March 2016 as part of the Council's Financial Strategy.*

*The cost of a meal for adults has not been increased since September 2014. The increase from £2.75 to £3.00 is reasonable and would also contribute to the target of £4.3m savings from the schools' budget.*

---

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL/ *RELEVANT CONSIDERATIONS* :

Dim.

*None.*

---

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL/*VIEWS OF STATUTORY OFFICERS*

1. Y Prif Weithredwr/Chief Executive:-

"Dim i'w ychwanegu i'r adroddiad."

*"Nothing to add to the report."*

2. Swyddog Monitro/ Monitoring Officer:-

"Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb."

*"No comments with regard to propriety."*

3. Prif Swyddog Cyllid/Chief Finance Officer:-

"Gyda'r cynnydd ym mhris prydau ysgol disgyblion ysgolion cynradd ac arbennig eisoes wedi'i benderfynu gan ei fod yn rhan o Strategaeth Ariannol y Cyngor, rwyf yn cefnogi'r cynnydd ym mhris prydau ysgol i oedolion sydd cyfateb i'r canran cynnydd ym mhrisiau prydau ysgol i ddisgyblion cynradd ac arbennig dros y cyfnod Medi 2014 i Fedi 2016. Er gwybodaeth, mae pris prydau ysgol i oedolion yn cynnwys Treth Ar Werth, ac felly 21 ceiniog allan o'r cynnydd o 25 ceiniog fydd y Cyngor yn cael cadw."

*"With the increase in the price for school meals for pupils in primary and special schools already decided upon as part of the Council's Financial Strategy, I support the increase in the price of school meals for adults which corresponds to the percentage increase in the price of school meals for pupils in primary and special schools over the period September 2014 to September 2016. For information, the price of school meals for adults includes Value Added Tax, and therefore the Council will only retain 21 pence out of the increase of 25 pence."*

BARN YR AELOD LLEOL/*VIEW OF LOCAL MEMBER*

Dim yn fater lleol.

*Not a local issue.*

LLOFNOD /*SIGNED*



DYDDIAD/*DATE*
*18 Mawrth/March 2016*